

Cyngor Dinas Casnewydd: Gwasanaethau Addysg

Fforwm Derbyniadau Ysgol

Cofnodion y Cyfarfod



Dyddiad: 15 Mawrth 2022

Yn bresennol: Aelod Etholedig CDC (y Cadeirydd)
Rheolwr Gwasanaeth CDC
Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau CDC
Yr Esgobaeth Gatholig
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GALIEG))
Aelod Etholedig CDC
Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr
Aelod Etholedig CDC
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr
Cynrychiolydd Plant sy'n Derbyn Gofal (dim pleidlais)
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol Uwchradd
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir

Clerc y Fforwm

Ymddiheuriadau:

Ymgynghorydd ar gyfer Ymddygiad ac Awtistiaeth (dim pleidlais)
Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (EY)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cynghorydd AN y rhai oedd yn bresennol a rhoddwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn rhai gwir a chywir.

3. Materion yn Codi

Cadarnhaodd JL nad oedd diweddariadau pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch adolygu'r Cod Derbyn i Ysgolion. Mae ymgynghoriad bach wedi ei gyhoeddi yn gofyn i ALLau am sylwadau ar gynrig i wneud copïau caled o'r polisi yn rhai nad ydynt yn ofynnol mwyach. Bydd CDC yn cefnogi hyn.

Nodwyd materion cyfoes o ran sefyllfa Wcráin yn codi a dywedodd EK wrth y Fforwm bod potensial o ffoaduriaid yn dod i Gasnewydd. Persbectif GALIEG yw y byddent yn cael eu cefnogi fel gydag unrhyw un arall a chyfeiriwyd at gynlluniau ailsefydlu Hong Kong ac Affganistan. Darperir diweddariadau wrth i hyn fynd yn ei flaen.

4. Aelodaeth

Nododd y fforwm ailbenodiad DW a JM yn y eu swyddi. Roedd ymatebion gan Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn dal i gael eu derbyn o ran cynrychiolaeth ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac felly bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

5. Rownd Dderbyn Flynyddol

Rhoddodd JL grynodedb o'r adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol:

- Crëwyd capasiti ychwanegol yn Ysgol Bassaleg, Ysgol Uwchradd Llyswyry ac Ysgol John Frost i ddarparu ar gyfer y galw ac o ganlyniad, roedd pob plentyn a fynegodd ddewis "ar amser" ar gyfer eu dalgylch yn llwyddiannus;
- Mae gan 4 allan o'r 7 ysgol uwchradd gyfrwng Saesneg argaeledd a hefyd yr ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed;
- ar hyn o bryd mae 38 o geisiadau uwchradd yn aros ac mae 14 o ddisgyblion Casnewydd arall heb gynnig ar hyn o bryd. Gwahoddwyd y rhai sydd heb gynnig i gyflwyno dewisiadau amgen.
- Derbyniwyd 1618 o geisiadau ar gyfer rownd derbyn ar amser 2022, caiff penderfyniadau ar gyfer hyn eu cyhoeddi ar 19 Ebrill 2022.
- Fel ar 9 Mawrth 2022 (y drydedd rownd derbyn yn hwyr), mae yna 28 o feithrinfeydd cyfrwng Saesneg gyda lleoedd ar gael yn ogystal â 3 meithrinfa gyfrwng Cymraeg.

Bu'r fforwm yn trafod y sefyllfa uwchradd gyda DW yn esbonio'r pwysau ar leoedd ysgolion uwchradd yn amlygu ei hun yn llawer cynt na'r disgwyl. Mae cynnig i ad-drefnu ysgolion ar y gweill fodd bynnag i gynyddu'r Nifer Derbyn d yn Ysgol Basaleg i 330 o fis Medi 2023. Mae ystafelloedd dosbarth dros dro yn eu lle ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer y cynnydd presennol ac unwaith y bydd y cyfleusterau newydd wedi eu creu fe fydd y rhai dros dro yn cael eu gwaredu.

Mae'r cynnydd yn Ysgol John Frost wedi deillio o feddwl yn greadigol o gwmpas y gofod sydd ganddyn nhw a derbyniadau'r chweched dosbarth yn is yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Nododd PB fod y newid yn y dalgylch ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseph wedi cael effaith gadarnhaol eleni.

6. Derbyniadau yn ystod y Flwyddyn

Dyweddodd JL wrth y Fforwm fod y Tîm Derbyn yn wynebu tymor haf anodd y llynedd; cafwyd mwy o geisiadau (y nifer uchaf mewn un tymor dros y 5 mlynedd diwethaf) a newidiadau staffio sylweddol o fewn y tîm a arweiniodd at greu ôl-groniad o geisiadau yn nhymor yr Hydref. Mae staff newydd bellach wedi eu sicrhau, er dros dro ac felly dylai dadansoddiad Tymor y Gwanwyn ddangos gwelliant.

Cafodd 61% o'r dewisiadau cyntaf eu bodloni a gwnaed 41% o geisiadau o ganlyniad i symud i'r ddinas.

Ar 8 Mawrth, roedd y Cyngor yn dal y lefel ganlynol o leoedd gwag:

- Lleoedd ysgol gynradd Saesneg - 9%
- Lleoedd ysgol gynradd Cymraeg - 14%
- Lleoedd ysgol uwchradd Saesneg - 7%
- Lleoedd ysgol uwchradd Cymraeg - 32%

Holodd JB ynghylch graddfa fonitro'r rhesymau am geisiadau i'r rhai sy'n trosglwyddo rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Cadarnhawyd mai dim ond y rheswm a nodwyd gan yr

ymgeisydd sy'n cael ei gofnodi, fodd bynnag mae dadansoddiadau arall yn cael ei wneud gan yr hwb cudd-wybodaeth dros gyfnod y flwyddyn academaidd.

7. Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro effeithiolrwydd yr holl awdurdodau derbyn ar draws Casnewydd. Os oes pwysau ymhlith ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, efallai y bydd angen darparu lleoedd ar gyfer hyn mewn ysgolion a gynhelir gan y gymuned.

Cafodd y Fforwm ei ddiweddarau ar safbwynt yr ysgolion gwirfoddol o gynorthwyr gyda'r ysgolion uwchradd a chynradd yn nodi cynnydd yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu derbyn. O ran Medi 2022, mae 3 allan o'r 7 ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyr yn llawn a hefyd Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseph.

8. Arolwg Canfyddiad Fforwm Derbyn i Ysgolion

Aeth JL â'r Fforwm drwy ganlyniadau'r arolwg canfyddiad aelodau, gan nodi bod 100% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn deall rôl y Fforwm ac yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu'r Cyngor.

Cadarnhaodd DW fod y cwestiwn sy'n cael ei godi gan yr Uwch Dîm Rheoli yn ymwneud â'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod y Fforwm yn effeithiol, gan nodi tra bod rhai aelodau'n brofiadol iawn, bod eraill yn gymharol newydd. Felly, cafodd cynnig ei gyflwyno a'i groesawu gan aelodau i ddechrau rhaglen hyfforddi gyda'r nod o gael y gorau oll o gyfarfodydd ac felly gofynnwyd i aelodau feddwl am unrhyw awgrymiadau sydd ganddyn nhw neu feysydd y maen nhw'n teimlo y gellid eu targedu.

9. Polisi Mynediad Teg

Mae peilot dau dymor o'r Polisi Mynediad Teg ar y gweill ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo orffen ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn. Mae ceisiadau sy'n cael eu hystyried dan y polisi hwn yn rhan o'r cyfarfodydd Symud a Reolir sy'n cael eu cynnal yn wythnosol.

10. Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn 2022

Cafodd copi o'r ymgynghoriad ei ddsbarthu'n flaenorol i'r holl aelodau a daeth i ben ar 18 Chwefror heb unrhyw newidiadau arfaethedig ar gyfer eleni. Yn dilyn ymgynghoriad, gwnaed gwelliant bychan i greu amser cau 5pm ar gyfer dyddiadau Cam Derbyn yn lle hanner nos gan nad oes cymorth swyddfa gefn ar gael i rieni ar ôl yr amser hwn.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau, ac felly mae'r polisi yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd yn barod i benderfynu arno erbyn 15 Ebrill 2022.

Cadarnhaodd PB nad oedd unrhyw newidiadau a gynigiwyd ar gyfer Sant Joseph ar gyfer 2022.

11. Rhaglen ad-drefnu

Cadarnhaodd DW nad oes cynigion byw ar hyn o bryd, ond diweddarwyd y Fforwm ar y canlynol:

- Penderfynwyd ar y cynnig i ehangu Ysgol Bryn Derw ym mis Ionawr 2022. Mae gwaith adnewyddu ar y gweill yn barod i'w weithredu yn nhymor yr haf.
- Mae ffederasiwn Ysgolion Cynradd y Gaer a Maesglas bellach mewn grym, yn dilyn cymeradwyaeth ym mis Rhagfyr 2021 ac felly erbyn hyn mae'n cael ei hadnabod fel Partneriaeth Ysgolion Cynradd y Gaer a Maesglas.
- Yn anffodus, bu oedi i gamau 2 a 3 (yn ymwneud â throsglwyddo tir) y cynnig i adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli ac Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. O ganlyniad, mae adroddiad ar y gweill ar hyn o bryd i addasu'r dyddiadau gweithredu fesul un flwyddyn galendr.

Rhannwyd trafodaeth ynghylch effeithiolrwydd ffederasiynau ac enghreifftiau da.

Gofynnodd JB pa effaith fyddai oedi ymhellach i adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli / Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ar Dderbyn / a oedd cwmpas i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli aros yng Nghaerllion am drydedd blwyddyn.

Cadarnhaodd DW fod Newport Norse yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa ac mae dull adeiladu system yn cael ei gymhwyso, gan ddarparu effeithlonrwydd o ran cost ac amser. Bydd yr ysgol newydd felly yn barod i'w meddiannu erbyn y dyddiadau diwygiedig.

Mae Ysgol Gynradd Pilgwenlli mewn cyflwr cymharol dda a bydd trefniadau'n cael eu gwneud cyn bo hir gyda Phennaeth weithredol Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli i ystyried cynlluniau.

Mae Ysgol Babanod Caerleon Lodge yn parhau i fod yn ased Gwasanaeth Addysg, ac mae posibiliadau i'r safle yn y dyfodol yn cael eu hystyried.

1. Unrhyw fater arall

Dim.

2. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

Cytunwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar 21 Mehefin 2022.

Cafodd cynnig ei gyflwyno hefyd a'i gadarnhau i symud i gyfarfodydd fesul 6 mis yn dilyn hyn, fydd yn cael ei gynnal ym misoedd Mai a Thachwedd bob blwyddyn.